# PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL, 27.03.14

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Simon Glyn (Cadeirydd).
Y Cynghorydd Dyfrig Jones (Is-gadeirydd).

**Y Cynghorwyr:-** Lesley Day, Elwyn Edwards, Aled Evans, Gweno Glyn, Selwyn Griffiths, Jason Humphreys, Charles W.Jones, Eryl Jones-Williams, June Marshall, Dafydd Meurig, Mair Rowlands, Gareth Thomas ac Eirwyn Williams.

**Swyddogion yn bresennol:** Geraint George (Pennaeth Strategol a Gwella), Gareth James (Rheolwr Aelodau – Cefnogi a Chraffu) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Yn bresennol ar gyfer eitemau 3 a 5 isod:-**
Y Cynghorydd Dyfed Edwards (Arweinydd)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 4 isod:-**
Y Cynghorydd Peredur Jenkins, Aelod Cabinet Adnoddau
Dilwyn Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol)
Meinir Owen (Rheolwr Prosiectau Corfforaethol)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 6 isod:-**
Y Cynghorydd John Wynn Jones, Aelod Cabinet Economi
Janet Roberts (Uwch Reolwr Cyflawni a Chefnogi)
Ann Roberts (Swyddog Gwella Perfformiad Cynorthwyol Craffu)

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Trevor Edwards a Michael Sol Owen.

Croesawyd y Cadeirydd yn ôl yn dilyn llawdriniaeth ddiweddar a dymunwyd iddo adferiad llwyr a buan.

Nododd y Cadeirydd, yn sgil pryder aelod ynglŷn â'r sefyllfa parthed cais y Prif Weithredwr am ymddeoliad cynnar, y trefnwyd sesiwn holi anffurfiol ar ddiwedd y cyfarfod hwn, gyda'r Arweinydd, y Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Adnoddau Dynol yn bresennol i ateb unrhyw gwestiynau gan aelodau.

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 16 Ionawr, 2104 fel rhai cywir.

## 3. ADRODDIAD YMCHWILIAD CRAFFU AGENDA WLEDIG
**Aelod Cabinet: Y Cynghorydd Dyfed Edwards**

Cyflwynwyd – adroddiad terfynol drafft yr ymchwiliad.

Diolchodd y Cadeirydd i aelodau'r Grŵp Ymchwiliad ac i'r Rheolwr Aelodau – Cefnogi a Chraffu am baratoi a chyflwyno'r adroddiad.

Gosodwyd y cyd-destun gan Gadeirydd y Grŵp Ymchwiliad.

Diolchodd y Rheolwr Aelodau – Cefnogi a Chraffu i'r Unedau Cyfathrebu, Ymchwil a Rheoli Newid am eu mewnbwn sylweddol i'r gwaith. Eglurodd mai ciplun oedd yma o farn pobl ar lawr gwlad ynglŷn â'r gwasanaethau sy'n cael eu cynllunio a'u darparu ar eu cyfer yng Ngwynedd a bod yr adroddiad yn dangos bod pobl, ar y cyfan, yn sylweddoli'r anawsterau a wynebir o ran cynllunio gwasanaethau yng nghyd-destun yr hinsawdd economaidd bresennol a'u bod yn barod, i ryw raddau, i ystyried newidiadau a sut mae delio â newidiadau. 'Roedd yn amlwg hefyd, o siarad â phobl, bod yna bryderon ac 'roedd angen i'r Cyngor fod yn ymwybodol o'r pryderon hynny gan ddelio â hwy mewn ffordd ystyriol a chyflwyno newid dros amser, gan gynnwys y trigolion yn yr holl drafodaethau.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y prif faterion a ganlyn:-

(1) Nodwyd mai 6 yn unig o'r 49 meddyg teulu yng Ngwynedd oedd wedi ymuno â chynllun Gwasanaeth y Tu Allan i Oriau Meddygon Teulu Gogledd Cymru a bod y Bwrdd Iechyd wedi datgan, petai pob meddyg yn fodlon cymryd un slot, y byddai yna wasanaeth llawn ar draws y sir.

(2) Nodwyd bod pobl yn sôn yn barhaus am y prinder meddygon yn Nwyfor a bod bron pob meddygfa o Benrhyndeudraeth i Ben Llyn yn fyr o feddygon.

(3) Awgrymwyd mai'r peryg' o wrando ar dystiolaeth lafar yw mai'r sawl sy'n gweiddi uchaf ac yn mynegi eu hunain orau sy'n cael eu clywed. Er na ellid gwadu bod yna broblemau aruthrol ym Mhen Llyn, 'roedd llawer yn ardal Porthmadog hefyd yn cael anhawster cael mynediad i'r gwasanaeth meddygon y tu allan i oriau. Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Aelodau – Cefnogi a Chraffu y cydnabyddid bod yr adroddiad yn gyfyng o ran adnabod profiadau ac ychwanegodd aelod mai pwrpas y grwpiau ffocws oedd adnabod y problemau fel bod modd ystyried y ffordd ymlaen.

(4) Awgrymwyd mai un o ganfyddiadau pwysicaf yr ymchwiliad oedd nad oedd yn ymarferol nac yn gynaliadwy i ddarparu holl wasanaethau'r Cyngor yn y modd traddodiadol, a bod cynnal deialog adeiladol ac ystyriol gyda'r Trydydd Sector a chymunedau yng Nghwynedd yn hanfodol os am gynnal gwasanaethau dwyieithog o safon ar draws y sir.

(5) Pwysleisiwyd pwysigrwydd cydweithio gyda'r cynghorau cymuned a chyfeiriwyd at Brosiect Penllyn fel enghraifft lwyddiannus o hyn. Nodwyd bod cynllun tebyg ar y gweill yn Nyffryn Ogwen, ond i raddau 'roedd hyn yn dod o'r cynghorau cymuned yn hytrach na'r Cyngor hwn ac 'roedd lle i ystyried sut mae'r Cyngor yn cefnogi ac yn annog cynghorau cymuned i gydweithio a sut y gellir trosglwyddo rhai gwasanaethau. Nodwyd y byddai'n ddiddorol gweld dilyn i fyny ar Beilot Penllyn. Diau fod yna wersi i'w dysgu o'r cynllun hwnnw a gallai'r Cyngor annog ardaloedd eraill i fynd yr un ffordd os ydyw o fudd i ardaloedd gwledig. Nododd y Cadeirydd fod yna nifer o gynlluniau peilot y gellid eu hystyried. 'Roedd yna ddefnydd o neuaddau pentrefi ar gyfer dod â gwasanaethau yn agosach at y cymunedau, 'roedd yna rôl newydd i'r cynghorau cymuned, 'roedd angen adolygu trafnidiaeth gyhoeddus ac edrych y tu allan i'r bocs mewn nifer o wahanol feysydd, gan gynnwys trafnidiaeth gyhoeddus mewn ardaloedd gwledig dwfn lle cydnabuwyd eisoes nad oes modd i'r Cyngor gynnal y gwasanaeth ar ei lefel gyfredol. I wneud hynny, efallai y byddai'n rhaid datganoli rhai cyfrifoldebau trwy ddisgresiwn yr Arweinydd a holwyd a ddylid ystyried pennu pencampwr ym maes yr agenda wledig, neu o leiaf bod y Cabinet yn ystyried rhoi'r maes yma yn nwylo un o'i aelodau. Byddai'n ddymunol gweld cynllun peilot yn unol â'r hyn a awgrymwyd a dymunid gweld trafodaethau

gyda chynghorau cymuned, ayb, ond ni ellid gweld sut bod modd gwneud hynny heb greu'r mecanwaith i alluogi i hynny ddigwydd.

(6) Awgrymwyd bod Gwynedd gyfan yn wledig, ond nad oedd modd i bobl mewn rhai cymunedau gael mynediad i'r gwasanaethau heb fod ganddynt gludiant. 'Roedd y sawl oedd yn berchen ar gar ac wedi gallu dod i'r grwpiau ffocws yn fwy parod i dderbyn y sefyllfa, ond y nod oedd cael y gwasanaethau at y bobl hynny sydd eu gwir angen. Nid oedd gan y bobl hynny gysylltiad Wifi da ac felly nid oedd modd iddynt gael mynediad i'r gwasanaethau ar-lein.

(7) Nodwyd bod prif argymhellion yr adroddiad yn bwysig iawn, ond sut 'roedd gweithredu arnynt? E.e. byddai'n rhaid dwyn perswâd ar Lywodraeth Cymru cyn y gellid gweithredu'r argymhellion ym mharagraffau 15.2 ac 15.3.

(8) Nodwyd bod rhaid cael cyfarfod gyda'r Llywodraeth, yn enwedig os bydd y cynghorau'n ymuno a nifer y cynghorwyr yn lleihau. Byddai hynny'n rhoi mwy o rym i gynghorau bro a byddai'n rhaid cyngor islaw'r cyngor sir i gynnal gwasanaethau.

(9) Nodwyd bod yr adroddiad, fel sy'n cael ei gydnabod, yn anghyflawn. 'Roedd yn codi mwy o gwestiynau nag mae'n eu hateb ar hyn o bryd ac 'roedd yn gam cyntaf tuag at edrych yn fwy manwl ar y materion sydd wedi'u gwyntyllu hyd yma. 'Roedd yn crybwyll rôl i'r dyfodol i gynghorau cymuned, ond nid oedd yn ymhelaethu ar hynny, ac awgrymog ar y gorau oedd yr adroddiad ar hyn o bryd. Pwysleisiwyd nad beirniadaeth oedd hyn gan nad oedd modd gwneud mwy o waith na'r hyn a gyflawnwyd, ond 'roedd yna gwestiynau i'w hateb ynglŷn â mynediad i wasanaeth, rôl trafnidiaeth gyhoeddus, rôl cynghorau cymuned yn dod â'r gwasanaethau yn agosach at y cymunedau, ynghyd â nifer o gwestiynau eraill hefyd. Rhaid derbyn bod yna waith pellach mwy manwl i'w wneud, yn enwedig o gofio'r angen am gydbwysedd ariannol yn sgil yr arbedion sylweddol y mae'n rhaid i'r Cyngor eu darganfod yn ystod y 4 blynedd nesaf. Rhaid ystyried sut i ddod â'r trethdalwyr yn agosach at y gwasanaethau, tra ar yr un pryd, o bosib', yn torri ar y gwasanaethau hynny. 'Roedd yna rôl ddeuol yma gan fod y mynediad i wasanaethau a'r arbedion yn symud gyda'i gilydd ac 'roedd angen ystyried lle'r oedd y Cyngor am fynd gyda'r adroddiad pwysig hwn.

(10) Mynegwyd pryder ynglyn â'r penderfyniad i gau rhagor o swyddfeydd post. Nodwyd mai Swyddfa Bost Dolgellau fyddai'r unig swyddfa bost ym Meirionnydd, ac er y byddai rhai o wasanaethau'r post ar gael mewn siopau lleol, ni fyddai modd, e.e. trethu ceir na gwirio ffurflenni pasbort heb fynd i Ddolgellau, neu wneud hynny ar-lein.

Mewn ymateb i rai o'r sylwadau uchod, nododd yr Arweinydd:-

(1) Na chredai fod digon o sylw wedi'i roi i'r agenda wledig yn y gorffennol a'i fod yn awyddus i uchafu'r maes hwn fel y gall y Cabinet weithredu arno.

(2) Y byddai'n trafod gyda'r swyddogion er mwyn gweld pa gerbyd sydd ei angen i ddod â'r adnodd gorau at ei gilydd, gan gynnwys, o bosib', bobl y tu allan i'r Cyngor, er mwyn gyrru'r gwaith yn ei flaen, gyda'r pwyslais ar gyflawni.

(3) Y gellid penderfynu wedyn ar y materion polisi cenedlaethol y dymuna'r Cyngor ddylanwadu arnynt ac yna'r materion ymarferol dydd i ddydd y gall y Cyngor ei hun eu cyfarch.

(4) Dylid ystyried hefyd oes angen sefydlu cyfundrefn sy'n mynd i fod yn proffilo'r effaith ar yr ardaloedd gwledig.

(5) Y byddai'n mynd drwy'r adroddiad yn fanwl gyda'r panel a sefydlwyd i edrych ar y maes hwn ac yn llunio ac yn rhannu rhaglen waith fanwl gyda'r pwyllgor hwn.

I grynhoi, nododd Cadeirydd y Grŵp Ymchwiliad mai bwriad Peilot Penllyn oedd creu cyngor gwledig arall, ond na ellid symud ymlaen ymhellach ar hynny gan nad oedd modd cael rhagor o waith gan y Cyngor. Ychwanegodd y byddai'n cynghori pob cyngor cymuned i fynd ar ôl hyn gan ei fod yn dod â'r gwasanaethau yn agosach at y bobl.

**PENDERFYNWYD derbyn adroddiad drafft terfynol yr Ymchwiliad Craffu Agenda Wledig a chyflwyno'r argymhellion, ynghyd â sylwadau'r pwyllgor, i Arweinydd y Cyngor, gan ofyn iddo symud yr agenda ymlaen er lles y trigolion a darparu adroddiad cynnydd i'r pwyllgor maes o law.**

**4. CYDWEITHIO / DYFODOL GWASANAETHAU CYHOEDDUS**
**Aelod Cabinet: Y Cynghorydd Dyfed Edwards**

Cyflwynwyd – adroddiad y Pennaeth Strategol a Gwella yn cynnig asesiad bras cychwynnol o rai o'r prif negeseuon a'r argymhellion yn adroddiad Williams fel y gallent effeithio'r Cyngor ac yn awgrymu ymateb posib y gall y Cyngor ei ystyried maes o law os bydd gweithredu ar argymhellion adroddiad y Comisiwn.

Gosododd yr Arweinydd y cyd-destun gan roi diweddariad o'r sefyllfa ynghyd â'i farn ar sut y byddai pethau'n debygol o ddatblygu.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y prif faterion a ganlyn:-

(1) Nodwyd, pe byddai yna orfodaeth ar y cynghorau i uno, y byddai'n gwneud synnwyr, yn ieithyddol ac yn ddaearyddol, ac mewn nifer o ffyrdd eraill, i'r Cyngor hwn uno gyda Chyngor Môn ac awgrymwyd y dylid estyn gwahoddiad i Gyngor Ynys Môn ddod i gyd-drafod gyda'r Cyngor hwn.
(2) Awgrymwyd bod gan y Cyngor hwn fwy'n gyffredin gyda Chyngor Conwy, e.e. materion arfordirol / gwledig.
(3) Nodwyd, os nad yw'r Cyngor hwn yn dymuno uno â chyngor arall, y dylai ddatgan hynny'n glir.
(4) Pwysleisiwyd y dylai'r Cyngor llawn gael cyfle i wyntyllu'r mater hwn mewn manylder a chyflwynwyd cais ffurfiol i'r Arweinydd fynd â'r genadwri yma yn ôl i'r Cabinet. Cytunodd yr Arweinydd i wneud hynny, gan nodi mai sail y drafodaeth yn y Cyngor fyddai'r hyn sydd yn adroddiad Comisiwn Williams.
(5) Cytunwyd y dylai pawb gael cyfle i leisio'u barn, ond pwysleisiwyd na ddylai'r aelodau dwyllo eu hunain bod Gwynedd yn mynd i aros fel y mae.
(6) Mynegwyd pryder, petai'r Cyngor hwn yn brwydro i aros fel y mae, y bydd Llywodraeth Cymru yn tynnu'r holl wasanaethau oddi arno ac yn sefydlu un cyngor mawr dros Ogledd Cymru.

Awgrymodd y Rheolwr Aelodau – Cefnogi a Chraffu y gellid rhoi ystyriaeth yng Ngweithdy Blynyddol y pwyllgor hwn ar 5 Mehefin i sefydlu gweithgor i edrych ar y mater yn fanylach.

**PENDERFYNWYD rhoi ystyriaeth yn y Gweithdy Blynyddol i sefydlu gweithgor i edrych ar y mater yn fanylach gan hefyd gynnal trafodaeth lawn yn y Cyngor.**

**5. Y RHAGLEN ARBEDION**
**Aelod Cabinet: Y Cynghorydd Peredur Jenkins**

Cyflwynwyd – adroddiad yr Aelod Cabinet Adnoddau yn amlinellu'r broses ar gyfer darganfod yr elfen arbedion effeithlonrwydd / rheoli'r galw o gyfarch y bwlch ariannol ac yn nodi sail targedau fesul adran i'w hargymell i'r Cabinet, ynghyd â'r broses i'w dilyn wedyn.

Gosododd yr Aelod Cabinet y cyd-destun ac eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol sut y daethpwyd at y sail targedau ar gyfer pob adran.

Craffwyd sail y targedau a chynigiwyd sylwadau ar y drefn arfaethedig i ddelio â'r cynigion fesul adran. Yn ystod y drafodaeth amlygwyd y prif bwyntiau a ganlyn:-

(1) Nodwyd bod y targed a awgrymid ar gyfer yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn anghredadwy o ystyried y tywydd garw diweddar a chyflwr ffyrdd y sir. Mewn ymateb, eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol mai gosod targed yn unig a wneid ar y funud. Wedi i'r adrannau gyflwyno eu cynigion, byddai yna broses o graffu'r cynigion hynny a gallai'r broses graffu honno amlygu unrhyw bryderon i'r Cabinet. Nododd hefyd, pa na ellid sicrhau'r arbedion effeithlonrwydd, y byddai'r Cyngor mewn gwaeth sefyllfa ymhellach ymlaen.

(2) Croesawyd y bwriad i edrych ar yr haenau rheolaethol gan fod hynny'n bwysig iawn o safbwynt yr arbedion, a hefyd o ran morâl y staff.

(3) Mynegwyd pryder ynglŷn ag arbedion effeithlonrwydd yn y gwasanaethau plant ym meysydd Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac yn arbennig yn y maes anghenion addysgol arbennig, ac awgrymwyd y byddai hyn yn cael effaith anghymesur ar y mwyaf bregus o fewn cymdeithas. Mewn ymateb, nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod cynghorau eraill yn y teulu eisoes yn gwario dros £3m yn llai na Gwynedd yn y maes yma ac mai un rheswm dros hynny oedd nad oedd y Cyngor hwn yn rhoi'r ymyrraeth briodol i mewn yn y lle priodol. Nododd hefyd, pe rhoddid y cyfle i gael yr arbediad o £3m o'r neilltu, byddai'n rhaid torri £3m o ryw wasanaeth arall. Pwysleisiodd hefyd nad oedd sôn am doriadau yma, eithr arbedion effeithlonrwydd, ac na ddisgwylid i'r arbedion hynny gael effaith uniongyrchol ar y trigolion.

(4) Awgrymwyd y gellid arbed arian weithiau drwy edrych y tu allan i'r bocs, e.e. gallai'r Cyngor arbed arian drwy redeg cartrefi gofal preswyl neu gynlluniau gofal ychwanegol mewn partneriaeth â'r sector breifat.

(5) Pwysleisiwyd bod gwario ychydig mwy yn arwain at arbedion sylweddol yn y tymor hir. Yn y cyswllt hwn, cyfeiriwyd at waith tarmacio gwael yn Nolgellau ac Abermaw ac awgrymwyd bod y Cyngor wedi gwneud y camgymeriad o ddewis y tendrwr isaf er mwyn arbed arian.

(6) Nodwyd bod y ffigurau arfaethedig yn swnio'n wych ar bapur, ond awgrymwyd bod y Cyngor wedi bod yn gweithio'n aneffeithiol iawn dros y blynyddoedd diwethaf os oedd mewn sefyllfa i ganfod £21m o arbedion effeithlonrwydd dros nos, ac 'roedd yna gwestiynau mawr i'w gofyn i'r penaethiaid. Nodwyd hefyd, os yw cyllideb gychwynnol adran yn uwch na chyllidebau adrannau eraill, mae'r 1% o arbedion sydd angen eu canfod yn uwch hefyd, ac 'roedd yn bwysig arddel rhywfaint o hyblygrwydd yn hytrach na phenderfynu ar ffigur pendant a mynnu'n haearnaidd bod adrannau yn chwilio am doriadau sy'n hollol afrealistig. Mewn ymateb, nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol petai rhai cynigion am arbedion yn annerbyniol gan yr aelodau, y byddai'n rhaid bod yn hyblyg, ond 'roedd yn bwysig manteisio ar bob cyfle bosib'.

(7) Awgrymwyd bod peryg' i reolwyr amddiffyn y bobl maent yn eu hadnabod ac yn gweithio gyda hwy o ddydd i ddydd, yn hytrach na'r rhai sy'n gweithio allan yn y maes, a holwyd oedd yna fwriad i ymyrryd os nad oedd rheolwr yn rhoi chwarae teg i'r holl weithlu. Mewn ymateb, nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y byddai Ffordd Gwynedd yn amlygu ac yn ail-ddiffinio'r berthynas rhwng gweithwyr rheng flaen a rheolwyr.

(8) Nodwyd, yn ogystal ag edrych ar y costau, y dylid meddwl yn nhermau Gwerth Gorau, gan ddefnyddio'r cyfle i feddwl yn fwy craff, yn hytrach nag ail-drefnu'r dull gweinyddol, fel sy'n digwydd gyda Meddylfryd Systemau. Mewn ymateb, nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol mai un o sylfeini Ffordd Gwynedd oedd y dylid rheoli gwerth, ac nid rheoli costau.

(9) Nodwyd bod y flwyddyn nesaf yn allweddol bwysig o ran cynllunio i'r dyfodol a gofynnwyd i'r swyddogion ystyried comisiynu, neu o leiaf wyntyllu posibiliadau, gyda'r trydydd sector a mudiadau eraill.

**PENDERFYNWYD cyflwyno sylwadau'r pwyllgor ar lafar i'r Cabinet ar 1 Ebrill.**

## 6. ADRODDIAD YMCHWILIAD CRAFFU CAFFAEL CYNALIADWY
**Aelod Cabinet: Y Cynghorydd John Wynn Jones**

Cyflwynwyd – adroddiad terfynol drafft yr ymchwiliad.

Gosodwyd y cyd-destun gan yr Aelod Cabinet Economi a diolchodd i aelodau'r ymchwiliad a'r swyddogion am eu hymrwymiad i'r gwaith.

Diolchodd Cadeirydd y Grŵp Ymchwiliad i'r aelodau ac i'r Swyddog Arweiniol a'r Swyddog Cefnogi am eu gwaith. Eglurodd fod yr ymchwiliad wedi mynd ychydig ymhellach na'r briff wrth adnabod materion perthnasol oedd yn allweddol o ran ansawdd caffael yn gyffredinol ond yn dylanwadu ar drefniadau caffael yn gynaliadwy. O ganlyniad, cyflwynid argymhellion ychwanegol hefyd i sylw'r Aelod Cabinet, er eu bod y tu allan i friff gwreiddiol yr ymchwiliad. Gofynnodd i'r pwyllgor dderbyn yr adroddiad ac i'r Aelod Cabinet dderbyn yr argymhellion a rhoi diweddariad i'r aelodau maes o law.

Nododd y Pennaeth Strategol a Gwella ei fod yn falch iawn o'r gwaith a diolchodd i'r aelodau am yr ymdrech oedd wedi mynd i mewn iddo.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y prif faterion a ganlyn:-

(1) Nodwyd bod yr ymchwiliad wedi amlygu gwendidau a diffygion yn y drefn gaffael bresennol ac awgrymwyd cadw'r grŵp mewn bodolaeth rhag ofn y bydd angen ei atgyfodi yn y dyfodol i ail-sefydlu'r gwaith o edrych ar y polisi yn sgil derbyn adroddiad cynnydd gan yr Aelod Cabinet.
(2) Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â'r sedd wag ar y grŵp, nododd y Pennaeth Strategol a Gwella y byddai'n anodd dod â rhywun newydd i mewn ar y cam yma gan fod yr aelodau presennol wedi bod yn gweithredu drwy gydol yr ymchwiliad ac yn deall y maes bellach.

I grynhoi, nododd Cadeirydd y Grŵp Ymchwiliad fod pawb wedi mwynhau cymryd rhan yn yr ymchwiliad a bod y maes hwn yn flaenoriaeth o fewn y Cynllun Strategol. Y weledigaeth yn y maes economi oedd gwella cyfleoedd i bobl Gwynedd fwy a gweithio a llwyddo'n lleol ac un o flaenoriaethau'r maes oedd cryfhau gwydnwch busnesau a chadw'r budd yn lleol. Mawr obeithiai y byddai argymhellion y grŵp yn cyfrannu at y gwaith ehangach sy'n digwydd ac 'roedd yn croesawu'r awgrym bod y grŵp ymchwil yn gwneud mwy o waith ac yn helpu gyda'r maes yma.

**PENDERFYNWYD**
**(a) Derbyn adroddiad drafft terfynol yr Ymchwiliad Craffu Caffael Cynaliadwy a chyflwyno'r argymhellion i'r Aelod Cabinet Economi, gan ofyn iddo ddarparu adroddiad cynnydd i'r pwyllgor maes o law.**
**(b) Cadw'r Grŵp Ymchwiliad mewn bodolaeth rhag ofn y bydd angen ei atgyfodi yn y dyfodol i ail-sefydlu'r gwaith o edrych ar y polisi yn sgil derbyn adroddiad cynnydd gan yr Aelod Cabinet.**

Ar ddiwedd y cyfarfod, diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu cyfraniadau a'u cefnogaeth iddo yn ystod ei gyfnod yn y gadair.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 12.25pm.